



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 3095 (Cy.312)

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Cynlluniau Iaith
Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

O dan Ran II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") caiff Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg bellach wedi'i ddiddymu a throsglwyddwyd y swyddogaeth o roi hysbysiad o dan Ran II o'r Ddeddf i Gomisiynydd y Gymraeg yn rhinwedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru amryw o gyrrff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf ac yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweinidogion Cymru bellach) bennu cyrff cyhoeddus at y dibenion hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu Corff Adnoddau Naturiol Cymru at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf.

Mae chwe Gorchymyn blaenorol wedi'u gwneud o dan adran 6 o'r Ddeddf:

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (O.S. 1996/1898);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1999 (O.S. 1999/1100);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 (O.S. 2001/2550(Cy.215));

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002 (O.S. 2002/1441(Cy.145));

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004 (O.S. 2004/71(Cy.7)); a

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2008 (O.S. 2008/1890(Cy.179)).

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 3095 (W.312)

WELSH LANGUAGE

The Welsh Language Schemes
(Public Bodies) Order 2012

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Under Part II of the Welsh Language Act 1993 ("the Act") the Welsh Language Board may give notice in writing to any public body to produce a Welsh Language Scheme. The Welsh Language Board has now been abolished and the function of giving notice under Part II of the Act has been transferred to the Welsh Language Commissioner by virtue of the Welsh Language (Wales) Measure 2011. Section 6 of the Act lists various public bodies for the purposes of Part II of the Act and provides that the Secretary of State (now the Welsh Ministers) may specify further public bodies for those purposes.

This Order specifies the Natural Resources Body for Wales for the purposes of Part II of the Act.

Six previous Orders have been made under section 6 of the Act:

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1996 (S.I. 1996/1898);

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 1999 (S.I. 1999/1100);

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2001 (S.I. 2001/2550(W.215));

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2002 (S.I. 2002/1441(W.145));

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2004 (S.I. 2004/71(W.7)); and

The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2008 (S.I. 2008/1890(W.179)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoliadol o gostau a buddiannau tebygol cydymffurfio a'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2012 Rhif 3095 (Cy.312)

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Cynlluniau Iaith
Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2012

Gwnaed 13 Rhagfyr 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 14 Rhagfyr 2012

Yn dod i rym 4 Ionawr 2013

Gan ei bod yn ymddangos i Weinidogion Cymru fod y person y cyfeirir ato yn y Gorchymyn hwn yn berson sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

Yn awr felly, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt(2) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2012 a daw i rym ar 4 Ionawr 2013.

Pennu Corff Cyhoeddus

2. Pennir Corff Adnoddau Naturiol Cymru(3) at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

2012 No. 3095 (W.312)

WELSH LANGUAGE

The Welsh Language Schemes
(Public Bodies) Order 2012

Made 13 December 2012

*Laid before the National
Assembly for Wales* 14 December 2012

Coming into force 4 January 2013

Whereas it appears to the Welsh Ministers that the person referred to in this Order is a person exercising functions of a public nature;

Now, therefore, the Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 6(1)(o) of the Welsh Language Act 1993(1) and now vested in them(2) hereby make the following Order:

Title and commencement

1. The title of this Order is the Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2012 and it comes into force on 4 January 2013.

Specification of Public Body

2. The Natural Resources Body for Wales(3) is specified for the purposes of Part II of the Welsh Language Act 1993.

(1) 1993 (p.38).

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(3) Sefydlyd Corff Adnoddau Naturiol Cymru gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlyd) 2012 (O.S. 2012/1903(Cy.230)).

(1) 1993 (c.38).

(2) The functions of the Secretary of State were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), *see* the reference to the Welsh Language Act 1993 in Schedule 1. By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32) those functions transferred to the Welsh Ministers.

(3) The Natural Resources Body for Wales was established by the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012 (S.I. 2012/1903(W.230)).

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion
Cymru

Minister for Education and Skills, one of the Welsh
Ministers

13 Rhagfyr 2012

13 December 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W1455/12/12

ON